# Atodlen 1

# Y ddogfen ddisgrifiadol

1. Cyflwyniad
2. Nodau
3. Cefndir
4. Cymhwysedd Defnyddwyr Gwasanaeth
5. Y Gwasanaeth
6. Monitro ac Adrodd
7. Cyffredinol
8. Trefniadau Pontio
9. Cwynion
10. Trefniadau cysylltu mewn argyfwng

**Atodiadau**

A. Erthyglau 8 a 9 Cyfarwyddeb 2012/29/EU

B. Crynodeb o'r mathau o weithgarwch cymorth sydd ei angen ar unigolion mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiadau

C. Y map proses cyfredol – lladdiadau mewn gwledydd tramor

D. Y map proses cyfredol – lladdiadau yng Nghymru a Lloegr

E. Geirfa

F. Gwybodaeth Atodol – Holi ac Ateb

## 1. Cyflwyniad

1.1 Bydd Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau cenedlaethol yn cynnig ystod o gymorth ymarferol, emosiynol ac arbenigol i unigolion mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiadau fel y'i disgrifir yn y Ddogfen Ddisgrifiadol hon, sy'n seiliedig ar anghenion yr unigolyn.

1.2 Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr yn amlinellu hawl dioddefwyr i gael cymorth sy'n seiliedig ar angen, gan gynnwys hawliadau uwch ar gyfer dioddefwyr a theuluoedd dioddefwyr troseddau difrifol[1].

1.3 Mae Erthyglau 8 a 9 y Gyfarwyddeb Dioddefwyr[2] yn disgrifio'r hawliau sydd gan ddioddefwyr troseddau a'u teuluoedd[3]; mae hyn yn cynnwys yr unigolion hynny mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiad.

1.4 Mae'r Ddogfen Ddisgrifiadol hon yn amlinellu ystod y cymorth a fydd yn cael ei ddarparu gan y Derbynnydd yng Nghymru a Lloegr i unigolion mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiad, a fydd yn gweithredu'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr a'r Gyfarwyddeb Dioddefwyr yn rhannol.

1.5 Ar hyn o bryd mae grant yr Awdurdod yn ariannu:

- Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau a ddarperir gan Gymorth i Ddioddefwyr, (gan gynnwys atgyfeirio at ddarparwyr therapi arbenigol os oes angen yn dilyn asesiad o angen)
- ystod o grwpiau sy'n darparu cymorth gan gymheiriaid;
- nifer o sefydliadau sy'n darparu therapi trawma arbenigol ar gyfer unigolion sydd angen y cymorth hwn yn dilyn profedigaeth o ganlyniad i laddiad a gyflawnwyd cyn sefydlu'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau cenedlaethol yn 2010.

1.6 Daw'r trefniadau ariannu presennol i ben ar 30 Medi 2014, ac mae'r Awdurdod yn comisiynu Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau i ddarparu cymorth i rai sydd mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiad ar ôl 1 Hydref 2014 (y Dyddiad Cychwyn) tan 31 Mawrth 2017, gydag opsiwn i'w ymestyn am flwyddyn neu ddwy flynedd arall. Y bwriad yw dyfarnu un grant i dderbynnydd i ddarparu a chydlynu cymorth ac i ddiweddu'r trefniadau ariannu ar wahân a ddisgrifiwyd ym mharagraff 1.5.

1.7 Bydd y Derbynnydd yn cael arian gan yr Awdurdod i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y ddogfen hon a'r atodiadau.

1.8 O dan delerau'r grant a ddyfernir i gyflenwi'r gwasanaeth a ddisgrifir yn y ddogfen a'r atodiadau ni fydd angen i'r Derbynnydd ddarparu cymorth yn dilyn profedigaeth o ganlyniad i laddiad a gyflawnwyd cyn 2010.

1.9 I ddiben y ddogfen hon:

- mae'r term 'lladdiad' yn cyfeirio at lofruddiaethau a dynladdiad (gan gynnwys dynladdiad corfforaethol pan fydd hyn yn arwain at, ac o'r adeg pan fo hyn yn arwain at gyhuddiad am y drosedd). Mae hefyd yn cynnwys troseddau yng Nghymru a Lloegr sy'n achosi marwolaeth sy'n cyfateb yn uniongyrchol i rai yng ngwladwriaethau eraill yr UE
- nid yw'r term 'lladdiad' yn cynnwys cymorth i rai mewn profedigaeth o ganlyniad i ddigwyddiadau traffig ar y ffordd
- mae'r termau 'unigolyn mewn profedigaeth' yn cyfeirio at aelodau teulu'r[4] unigolyn sydd wedi marw o ganlyniad i laddiad ac sy'n cael eu hatgyfeirio neu sy'n atgyfeirio eu hunain at y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau i gael cymorth (gweler Adran 4 ar Gymhwysedd)
- mae'r term 'cenedlaethol' yn cyfeirio at Gymru a Lloegr

---

[1] www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime
[2] Cyfarwyddeb 2012/29/EU Senedd Ewrop a'r Cygnor 25 Hydref 2012 a oedd yn pennu safonau sylfaenol ar hawliau, cymorth ac amddiffyn dioddefwyr troseddau, ac sydd wedi disodli Penderfyniad Fframwaith y Cyngor 2001/220/JH
[3] Mae Erthyglau 8 a 9 wedi'u hamgáu yn Atodiad A
[4] Gweler para 4.1 y Ddogfen Ddisgrifiadol hon am ddiffiniad o 'aelodau teulu'

## 2. Nodau

2.1 Nod y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yw darparu cymorth ymarferol, emosiynol ac arbenigol sy'n seiliedig ar eu hangen i unigolion mewn profedigaeth.

2.2 Yn Atodiad B ceir crynodeb o'r mathau o weithgarwch a nodwyd gan ymarferwyr cymorth cyfredol fel rhai sydd eu hangen ar bobl mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiadau. Ni fwriedir i'r Atodiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr, ond mae'n amlinellu eu hanghenion sy'n cynnwys gwybodaeth, cymorth ymarferol, cyngor cyfreithiol, cymorth emosiynol a therapi arbenigol.

2.3 Mae anghenion cymorth unigolion yn amrywio o'r tymor byr i'r hir, a gallant fod yn fynych. Y prif feini prawf ar gyfer darparu cymorth yw angen yr unigolyn, yn hytrach na'i fod yn seiliedig ar amser.

## 3. Cefndir

3.1 Dechreuodd y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau presennol weithredu ddechrau 2010. Mae'n cael ei redeg gan Gymorth i Ddioddefwyr gyda chyllid grant gan y Llywodraeth.

3.2 Roedd cyfanswm yr achosion o laddiadau yng Nghymru a Lloegr fel y'u hysbyswyd i'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau gan yr heddlu yn ystod blynyddoedd 2010-2011, 2011-2012 a 2012-2013 fel a ganlyn:

| Blwyddyn Ariannol | Hysbysiadau |
|---|---|
| 2010-2011 | 621 |
| 2011-2012 | 570 |
| 2012-2013 | 539 |
| **Cyfanswm** | **1760** |

3.3 Roedd cyfanswm yr achosion, yn dilyn yr hysbysiadau uchod, lle rhoddodd unigolion mewn profedigaeth yn yr achosion hyn gydsyniad i'r heddlu i'w hatgyfeirio at y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yn ystod y blynyddoedd 2010-2011, 2011-2012 a 2012-2013 fel a ganlyn:

| Blwyddyn Ariannol | Atgyfeiriadau (Nifer yr hysbysiadau lle rhoddwyd cydsyniad i'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau gysylltu â dioddefwyr) |
|---|---|
| 2010-2011 | 531 |
| 2011-2012 | 467 |
| 2012-2013 | 441 |
| **Cyfanswm** | **1439** |

3.4 Roedd cyfanswm yr unigolion a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yn ystod blynyddoedd 2010-2011, 2011-2012 a 2012-2013 fel a ganlyn:

| Blwyddyn Ariannol | Nifer yr Unigolion a Atgyfeiriwyd |
|---|---|
| 2010-2011 | 1443 |
| 2011-2012 | 1292 |
| 2012-2013 | 1080 |
| **Cyfanswm** | **3815** |

3.5 Nid yw'r ffigurau uchod yn cynnwys atgyfeiriadau gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO). Yn ystod y cyfnod 2010-2013 bu 100 o laddiadau mewn gwledydd tramor a arweiniodd at atgyfeiriadau gan yr FCO i'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau a chafodd 143 o unigolion gymorth yn ystod y cyfnod hwnnw.

3.6 Roedd cyfanswm yr unigolion a gynorthwywyd gan y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau rhwng 2010 a 31 Rhagfyr 2013 yn 4500.

3.7 Mae cyfanswm yr unigolion sy'n cael cymorth gan y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau ar hyn o bryd (Chwefror 2014) yn 2588.

3.8 Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad "Getting it Right for Victims and Witnesses" (Gorffennaf 2012), dywedodd y Llywodraeth er y byddai mwyafrif y gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr troseddau yn cael eu comisiynu'n lleol gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCC), byddai'r Awdurdod yn cadw cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau arbenigol penodol sydd o bwys eithriadol, megis cymorth i rai mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiadau.

**Rhwymedigaethau**

## 4. Cymhwysedd Defnyddwyr Gwasanaeth

4.1 Rhaid i'r unigolyn sy'n gofyn am y gwasanaeth cymorth fod:

- *yn aelod o'r teulu* (diffiniwyd yn Erthygl 2 y Gyfarwyddeb Dioddefwyr fel priod, yr unigolyn sy'n byw â'r dioddefwr mewn perthynas agos ymroddedig, mewn aelwyd ar y cyd ac ar delerau sefydlog a pharhaus, perthnasau uniongyrchol, brodyr a chwiorydd a dibynyddion y dioddefwr)
- *yr unigolyn yr oedd ei farwolaeth yn ganlyniad lladdiad* fel y disgrifiwyd yn 1.9 uchod
- *sydd wedi dioddef niwed* o ganlyniad i farwolaeth yr unigolyn hwnnw.

4.2 Os yw'r lladdiad wedi'i gyflawni yn un o Aelod Wladwriaethau'r UE, bydd unigolyn sy'n cyflawni gofynion cymhwysedd 4.1 yn gymwys i gael cymorth y gwasanaeth hwn os mai Cymru a Lloegr yw'r lle mwyaf priodol i ddarparu'r cymorth hwnnw

4.3 Os bydd erlyniad yn digwydd yng Nghymru a Lloegr mewn achos o laddiad, bydd unigolyn sy'n cyflawni gofynion cymhwysedd 4.1 yn gymwys i gael cymorth y gwasanaeth hwn pan fydd y cyfan neu ran o'r cymorth sydd ei angen yng Nghymru a Lloegr.

4.4 Darperir cymorth yn dilyn:

- atgyfeiriad gan yr heddlu
- hysbysiad ac atgyfeiriad gan FCO (os oedd y lladdiad wedi digwydd mewn gwlad dramor)
- hunan atgyfeiriad, os yw wedi'i ategu gan gadarnhad gan yr heddlu neu'r FCO.

4.5 Darperir cymorth yn ystod oes y grant nes bydd yr angen am gymorth wedi dod i ben.

4.6 Bydd y Derbynnydd yn gyfrifol am sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r grant fel y bydd y grant yn ystod pob blwyddyn ariannol y grant ac ar hyd holl gyfnod y grant, y bydd yn cael ei ddefnyddio i ddosbarthu cymorth yn deg i'r rhai cymwys sydd angen cymorth. Gweler Adran 6 Monitro ac Adrodd.

## 5. Y Gwasanaeth

**Cymorth**

5.1 Bydd y gwasanaeth a ddarperir yn cyflawni dwy swyddogaeth gyffredinol:

Cyflenwi Gwasanaeth Uniongyrchol

- cynnal asesiad o anghenion cymorth yr unigolyn mewn profedigaeth
- cymorth ymarferol ar unwaith a chymorth ymarferol i'r sawl sydd mewn profedigaeth am gyhyd ag y bydd ei angen yn ystod cyfnod y grant.

Cyflenwi Gwasanaeth Uniongyrchol neu gydlynu gwasanaeth sy'n cynnwys comisiynu ymlaen (os canfyddir angen)

- atgyfeirio at gymorth arbenigol (cwnsela ar gyfer trawma a phrofedigaeth)
- atgyfeirio at gyngor cyfreithiol (gan gynnwys hyd at 15 awr drwy linell gymorth ffôn)
- atgyfeirio at gymorth gan gymheiriaid

5.2 Bydd y Derbynnydd yn comisiynu darpariaeth gwasanaeth arbenigol sy'n cyrraedd safonau proffesiynol priodol mewn cwnsela neu gyngor cyfreithiol.

5.3 Mae Atodiad B yn rhoi rhestr ddangosol o'r gweithgarwch cymorth sy'n gysylltiedig â darparu cymorth ymarferol, emosiynol ac arbenigol i'r rhai hynny sydd mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiad.

Cymorth Ychwanegol pan fydd Lladdiad yn Digwydd mewn Gwlad Dramor

5.4 Pan fydd y lladdiad yn digwydd mewn gwlad dramor, er mwyn diwallu anghenion y rhai mewn profedigaeth efallai y bydd angen i'r darparwr hefyd ddarparu neu gomisiynu:

- cymorth i adnabod a dychwelyd y corff ac eiddo;
- cymorth teithio i'r teulu i leoliad y drosedd;
- cymorth â chyngor cyfreithiol;
- cymorth gyda chyfieithwyr a chyfieithu dogfennau;
- cymorth i ddelio â'r cyfryngau;
- cymorth ag anghenion eraill a all godi oherwydd bod y lladdiad wedi digwydd dramor, rhaid cael cytundeb â'r FCO ar gyfer y cymorth hwn.

  Bydd y cymorth a ddarperir yn dod o fewn y diffiniadau o Gymorth Consylaidd, fel y'i disgrifir yng nghyhoeddiad yr FCO, Support for British nationals abroad: A Guide and Customer Charter.

**Proses**

5.5 Mae Atodiadau C a D yn fapiau Proses sy'n amlinellu'r prosesau ar gyfer:

**Hysbysiadau ac atgyfeiriadau at y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau**

- bydd Swyddogion Cyswllt Teulu (FLO) yr heddlu'n hysbysu'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau o laddiad, yn enwi'r unigolion a effeithir sy'n dymuno cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth, ac yn gwneud atgyfeiriadau
- bydd yr FCO yn hysbysu'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau o laddiad mewn gwlad dramor, yn enwi'r unigolion a effeithir sy'n dymuno cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth, ac yn gwneud atgyfeiriadau

**Y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau**

- bydd gweithiwr achos y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yn cael ei aseinio a'i gyflwyno i'r unigolyn, a bydd yn cynnal asesiad o angen
- bydd y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yn darparu cymorth ymarferol ac emosiynol
- bydd y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yn comisiynu cymorth cyfreithiol neu therapi arbenigol
- bydd y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yn comisiynu cymorth i rai sydd mewn profedigaeth mewn gwlad dramor

- bydd y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yn cyfeirio unigolion at gymorth gan gymheiriaid a sefydliadau eraill y gall rhai mewn profedigaeth gysylltu â hwy os ydynt yn dymuno.

5.6 Mae'r mapiau proses yn adlewyrchiad o'r sefyllfa bresennol a gall y Derbynnydd ddatblygu ei fap proses ei hun ar gyfer ei wasanaeth gyda chytundeb yr Awdurdod a rhanddeiliaid allweddol eraill. Fodd bynnag, mae nifer o ofynion systematig ynghlwm wrth y broses:

- system atgyfeirio briodol at wasanaethau arbenigol a gomisiynir (os nad yw'r rhain yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y Derbynnydd)
- cysylltiadau priodol â'r heddlu, yr FLO ac asiantaethau eraill y System Cyfiawnder Troseddol (CJS)
- system hyfforddi briodol ar gyfer gweithwyr achos
- swyddogaeth reoli achosion ddiogel ar gyfer cael manylion personol, sy'n cydymffurfio â Safonau Diogelwch Gwybodaeth ar gyfer data personol a'r Ddeddf Diogelu Data hyd at o leiaf IL3.

## 6. Monitro ac Adrodd

6.1 Bydd y Derbynnydd yn rhoi system ar waith ar gyfer casglu a chofnodi data cadarn yn gysylltiedig â'r rhai sy'n cael cymorth, yn seiliedig ar eu hadborth ond sydd hefyd yn cynnwys adborth ymarferwyr, sy'n sail i fesur canlyniadau i'r sawl sy'n cael cymorth: gan gynnwys gwella ansawdd eu bywyd a'u gallu i ymdopi â gweithgareddau normal yn ystod ac ar ôl darparu cymorth.

6.2 Bydd y Derbynnydd yn mesur statws yr unigolion sy'n cael cymorth, a fydd yn cynnwys mesur yn erbyn (ond heb ei gyfyngu) y categorïau canlynol (gweler hefyd Atodiad B):

- Addysg, sgiliau a chyflogaeth
- Arian a budd-daliadau
- Ymagweddau ac agweddau
- Iechyd meddyliol a chorfforol
- Cyffuriau ac alcohol
- Rhyngweithio cymdeithasol
- Teulu, cyfeillion a phlant
- Lloches a llety

6.3 Bydd y Derbynnydd hefyd yn mesur canlyniadau a gyflawnwyd yn uniongyrchol gan y gwasanaeth a ddarperir o ran bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- i ba raddau maent wedi cael eu trin mewn modd sensitif a pharchus gan y gwasanaeth;
- i ba raddau oedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn cyfateb i'r hyn y cytunwyd arno ar adeg yr asesiad o angen;
- pa mor gydlynus ac effeithiol oedd y cymorth a ddarparwyd;
- bodlonrwydd cyffredinol â'r gwasanaeth.

6.4 Os na fynegir bodlonrwydd mewn achos, bydd y Derbynnydd yn rhoi gwybodaeth i'r Awdurdod ar ba gamau cywiro sydd i'w cymryd i roi sylw i hun.

6.5 Bydd y Derbynnydd hefyd yn cyflwyno gwybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth ystadegol a mesurau rheoli perfformiad, sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- nodweddion gwarchodedig y rhai sy’n cael cymorth fel y’u diffiniwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- nifer yr achosion o laddiadau yr hysbyswyd i’r Derbynnydd ohonynt (gan ffynhonnell hysbysu);
- nifer y bobl a atgyfeiriwyd at y Derbynnydd (gan ffynhonnell hysbysu) ar ôl iddynt gytuno i gael eu hatgyfeirio;
- nifer y bobl mae’r gwasanaeth wedi cysylltu â hwy o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl yr atgyfeiriad (mae angen 100% ac eithrio mewn achosion lle nad oedd hyn yn bosibl);
- y nifer yr aseswyd eu hanghenion wedi hynny;
- nifer y bobl sy’n penderfynu peidio â bwrw ymlaen â chymorth, pam ac ar ba gam;
- nifer y bobl sy’n cael eu hatgyfeirio at bob math o wasanaeth a gomisiynir ar gyfer cymorth arbenigol a chymorth gan gymheiriaid neu sy’n cael ei hatgyfeirio at sefydliadau eraill;
- nifer y bobl sy’n cael pob math o gymorth arbenigol neu gymorth gan gymheiriaid a pha mor aml fydd hyn yn digwydd

  (*bydd angen dadansoddi pob un o’r uchod ar sail ddaearyddol - er enghraifft, yn rhanbarthol fel fydd yn ofynnol gan yr Awdurdod)*

- gwybodaeth yn ymwneud â sicrhau ansawdd gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau y bydd y Derbynnydd yn atgyfeirio pobl mewn profedigaeth atynt i gael cymorth arbenigol neu gymorth gan gymheiriaid.

6.6 Bydd y Derbynnydd yn cyflenwi’r wybodaeth hon i’r Awdurdod yn rheolaidd ar ffurf adroddiadau ysgrifenedig yn y ffurf a ddisgwylir gan yr Awdurdod, yn chwarterol. Hefyd, bydd y Derbynnydd yn gweithio â’r Awdurdod i ddatblygu ymhellach yr allbynnau a’r canlyniadau a fesurir yn ôl y gofyn er mwyn sicrhau bod y cymorth yn cael ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

**Monitro ariannol**

6.7 Bydd gofyniad ar y Derbynnydd i gadw cofnod manwl o’r holl wariant sy’n gysylltiedig â’r grant fel y disgrifiwyd yn y Cytundeb Grant, a bydd yn rhoi trefniadau ar waith i gyflwyno gwybodaeth o’r fath i’r Awdurdod yn ôl yr angen. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad chwarterol manwl o leiaf o wariant y grant a fydd yn dangos:

- rhagamcan o wariant am y flwyddyn bob mis
- yr union wariant am y flwyddyn bob mis
- bydd y rhagamcan a’r union wariant yn cynnwys gwariant sydd wedi codi’n uniongyrchol gan sefydliadau a gomisiynwyd ac sydd o dan gontract
- y costau yn ôl unedau perthnasol ar gyfer pob math o gymorth a ddarperir

6.8 Bydd y gwariant yn cael ei ddadansoddi fel a ganlyn:

- math (er enghraifft, hyfforddiant, cyflogau, offer, nwyddau traul ac ati)
- daearyddiaeth (er enghraifft, yn rhanbarthol, yn ôl gofynion yr Awdurdod)

a bydd ar gael mewn fformat sy’n bodloni’r Awdurdod bod y Cyllid Grant yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf effeithlon.

## 7. Cyffredinol

7.1 Bydd y Derbynnydd yn monitro tueddiadau mewn anghenion dioddefwyr (er enghraifft, gwasanaethau cyffredin sydd eu hangen arnynt a’u hygyrchedd i bob dioddefwr).

7.2 Bydd y Derbynnydd yn sicrhau bod cymorth emosiynol, ymarferol, arbenigol a gwybodaeth ar gael i bob unigolyn sy’n datgan angen.

7.3 Mae'r dyfarniad grant am hyd at £2.85m y flwyddyn, ac mae'r Derbynnydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ddosbarthu'n effeithlon er mwyn darparu cymorth i unigolion cymwys sy'n datgan angen yn ystod pob blwyddyn ariannol drwy gydol cyfnod y dyfarniad.

7.4 Pan fo hyn yn golygu na all y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael i ddarparu cymorth sy'n seiliedig ar angen i bob unigolyn, dylid hysbysu'r Awdurdod a'i ystyried fel rhan o drefniadau rheoli ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir.

7.5 Yn ogystal â darparu gwasanaethau uniongyrchol / atgyfeirio ymlaen, bydd y Derbynnydd yn cyfeirio unigolion at wasanaethau eraill a all fod o gymorth sy'n seiliedig ar yr angen a ganfuwyd.

7.6 Bydd y Derbynnydd yn ymateb i'r canlynol o fewn amserlenni sy'n ateb gofynion yr Awdurdod ac y cytunir arnynt yn brydlon â'r Awdurdod ar ôl dyfarnu'r grant:

- ceisiadau am gyngor a / neu wybodaeth gysylltiedig ar achosion unigol brys a rhai nad ydynt yn achosion brys fel a ganiateir o fewn unrhyw reolau diogelu data
- ceisiadau am gyngor a / neu wybodaeth gysylltiedig ar faterion gweinyddol cyffredinol sy'n ymwneud â gweithredu'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau
- ceisiadau am gyngor a / neu wybodaeth gysylltiedig ar unrhyw faterion ehangach eraill o bwys, ymgyfreitha neu gymorth cyffredinol arall a fydd ei angen ar yr Awdurdod
- ceisiadau am gyngor a / neu wybodaeth gysylltiedig ar unrhyw agwedd ar wybodaeth ystadegol neu reoli arall sy'n ymwneud â gweithredu'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau
- gweler Atodiad F am wybodaeth atodol sydd wedi deillio o'r sesiwn Holi ac Ateb yn y digwyddiad Cwrdd â'r Farchnad ar gyfer yr ymarferiad hwn.

## 8. Trefniadau Pontio

8.1 Yn y mis cyn y Dyddiad Cychwyn, bydd y Derbynnydd yn gweithio â'r derbynnydd blaenorol fel rhan o gynllunio trosglwyddo cymorth cleientiaid i helpu i drosglwyddo cleientiaid i'r trefniadau darparu newydd o'r Dyddiad Cychwyn (1 Hydref 2014).

8.2 Dri mis cyn diwedd y cyfnod grant, bydd y Derbynnydd yn cydweithredu'n llawn ac yn gweithio â'r Awdurdod ac unrhyw dderbynnydd newydd i helpu i drosglwyddo cleientiaid i'r trefniadau darparu newydd. Bydd hyn yn cynnwys darparu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani'n brydlon.

8.3 Bydd y costau pontio'n cael eu cynnwys ym Mhroffil Gwariant y Derbynnydd a gyflwynir gyda'u bid.

## 9. Cwynion

9.1 Rhaid i'r Derbynnydd roi trefn gwyno hygyrch ar waith ar gyfer y rhai sy'n cael cymorth i'w galluogi i gwyno am y gwasanaeth a ddarperir.

9. Rhaid i'r Derbynnydd ddiweddaru'r Awdurdod yn rheolaidd ar nifer a math y cwynion a gafwyd, a fydd yn cynnwys:

- crynodeb o'r gŵyn
- y dyddiad pan wnaethpwyd y gŵyn
- cam cywirol a gynigir
- canlyniad y cam cywirol
- y dyddiad pan gafodd y gŵyn ei datrys

## 10. Cysylltu â’r Awdurdod mewn argyfwng

10.1 Bydd y Derbynnydd yn cytuno ar brotocol cyfathrebu â’r Awdurdod ar adeg dyfarnu’r grant i sicrhau bod yr Awdurdod yn cael ei hysbysu o unrhyw argyfyngau sy’n codi ac os bydd angen delio â’r cyfryngau yn achos y gwasanaethau a ddarperir o dan y grant neu â’r Derbynnydd.

**ATODIAD A i'r Ddogfen Ddisgrifiadol**

**Erthyglau 8 a 9 Cyfarwyddeb 2012/29/EU**

**Erthygl 8**

**Hawl i fynediad at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr**

1. Bydd Aelod Wladwriaethau yn sicrhau bod dioddefwyr, yn unol â'u hanghenion, yn cael mynediad at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr sy'n gyfrinachol, yn ddi-dâl, sy'n gweithredu er lles y dioddefwyr cyn, yn ystod ac am gyfnod priodol ar ôl achosion troseddol. Bydd aelodau'r teulu'n cael mynediad at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr yn unol â'u hanghenion a graddfa'r niwed a ddioddefwyd o ganlyniad i'r drosedd a gyflawnwyd yn erbyn y dioddefwr.

2. Bydd Aelod Wladwriaethau yn hwyluso atgyfeiriad dioddefwyr, gan yr awdurdod cymwys a gafodd y gŵyn a chan endidau perthnasol eraill, at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr.

3. Bydd Aelod Wladwriaethau yn cymryd camau i sefydlu, yn ddi-dâl, gwasanaethau cymorth arbenigol cyfrinachol a di-dâl sy'n ychwanegol at, neu fel rhan integredig, o wasanaethau cymorth i ddioddefwyr cyffredinol, neu i alluogi sefydliadau cymorth i ddioddefwyr i alw ar endidau arbenigol sydd mewn bodolaeth eisoes fel cymorth arbenigol. Bydd ddioddefwyr, yn unol â'u hanghenion penodol, yn cael mynediad yn unol â'u hanghenion penodol a graddfa'r niwed a ddioddefwyd o ganlyniad i'r drosedd a gyflawnwyd yn erbyn y dioddefwr.

4. Gellir sefydlu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr ac unrhyw wasanaethau cymorth arbenigol fel sefydliadau cyhoeddus neu anllywodraethol a gellir eu trefnu ar sail broffesiynol neu wirfoddol.

5. Bydd Aelod Wladwriaethau yn sicrhau nad yw mynediad at unrhyw wasanaethau cymorth i ddioddefwyr yn ddibynnol ar y ffaith bod dioddefwr yn gwneud cwyn ffurfiol i awdurdod cymwys yn gysylltiedig â throsedd.

**Erthygl 9**

**Cymorth gan wasanaethau cymorth i ddioddefwyr**

1. Bydd gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr, fel y cyfeiriwyd atynt yn Erthygl 8(1), yn darparu, o leiaf:

(a) gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n berthnasol i hawliau dioddefwyr gan gynnwys manteisio ar gynlluniau iawndal cenedlaethol ar gyfer anafiadau troseddol, a'u rôl mewn achosion troseddol, gan gynnwys paratoi ar gyfer presenoldeb yn y treial;

(b) bod gwybodaeth ynghylch neu atgyfeiriad uniongyrchol at unrhyw wasanaethau cymorth arbenigol perthnasol ar gael;

(c) cymorth emosiynol a, lle bydd ar gael, cymorth seicolegol;'

(d) cyngor ar faterion ariannol ac ymarferol sy'n deillio o'r drosedd;

(e) oni bai ei fod yn cael ei ddarparu gan wasanaethau cyhoeddus neu breifat eraill, cyngor yn ymwneud â’r risg ac atal erledigaeth, bygythiad neu ddial eilaidd ac ailadroddus.

2. Bydd Aelod Wladwriaethau yn annog gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr i roi sylw arbennig i anghenion penodol dioddefwyr sydd wedi dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i ddifrifoldeb y drosedd.

3. Oni bai eu bod yn cael eu darparu gan wasanaethau cyhoeddus neu breifat eraill y cyfeiriwyd atynt yn Erthygl 8(3), dylid datblygu a darparu’r canlynol, o leiaf:

(a) llochesi neu lety dros dro priodol arall ar gyfer dioddefwyr sydd angen man diogel oherwydd eu bod mewn perygl o ddioddef erledigaeth, bygythiad neu ddial eilaidd ac ailadroddus;

(b) cymorth i ddioddefwyr ag anghenion penodol sydd wedi’i dargedu a’i integreiddio, megis dioddefwyr trais rhywiol, dioddefwyr trais ar sail rhywedd a dioddefwyr trais mewn cydberthnasau agos, gan gynnwys cymorth trawma a chwnsela.

**ATODIAD B i'r Ddogfen Ddisgrifiadol**

**Crynodeb o'r mathau o weithgarwch cymorth a nodwyd gan ymarferwyr cymorth cyfredol fel rhai sydd eu hangen gan rai mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiadau [5]**

1. Rydym wedi adolygu'r ddarpariaeth gwasanaeth gyfredol a'r llenyddiaeth sydd ar gael. Rydym wedi ystyried y categorïau o angen fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad *Getting it Right for Victims and Witnesses* a'r *NatCen Evidence and Practice Review*. Canfu'r broses hon ystod o anghenion sy'n aml yn gydgysylltiedig. Yn fras, mae'r rhain yn cynnwys cymorth ymarferol, emosiynol, seicolegol, therapiwtig, cyfreithiol a chyngor a chymorth eiriolaeth.

2. Mae pobl mewn profedigaeth angen mynediad rhwydd at gymorth mewn ffordd eglur a diogel sy'n golygu bod yn rhaid cynnal trefniadau atgyfeirio effeithiol â'r heddlu ac awdurdodau eraill. Mae gan unigolion mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiad a gyflawnwyd dramor anghenion cymorth ychwanegol oherwydd yr anawsterau penodol sydd ynghlwm wrth hynny (fel teithio a deall / rhyngweithio â systemau cyfiawnder troseddol tramor)

3. Mae'r NatCen Evidence and Practice Review o gymorth ar gyfer dioddefwyr a mesur canlyniadau a gynhyrchwyd gan NatCen Social research yn datgan bod anghenion cymorth dioddefwyr yn amrywiol a dynamig. Nodwyd chwe chategori cyffredinol o angen:

- gwybodaeth;
- diogelwch a chael eu hamddiffyn rhag dioddef erledigaeth eto;
- cymorth ymarferol;
- cymorth emosiynol;
- cymorth i ganfod eu ffordd drwy'r System Cyfiawnder Troseddol;
- parch a thriniaeth deg

4. I ddibenion enghraifft ddangosol, dyma rai o brofiadau o wasanaethau sy'n cynorthwyo rhai mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiad, yn erbyn rhai o'r categorïau cyffredinol hyn:

| Gwybodaeth | Cymorth Ymarferol | Cymorth Emosiynol | Cymorth i ganfod y ffordd drwy brosesau cyfreithiol | Diogelwch ac amddiffyniad rhag erledigaeth |
|---|---|---|---|---|
| Ar amrywiaeth o faterion cyffredinol | Help gydag amrywiaeth eang o weithgareddau o ddydd i ddydd e.e. help i drefnu apwyntiadau, cadw sylw digroeso i ffwrdd, cyfathrebu ag ysgolion a gweithleoedd | Help gydag effeithiau tymor byr a hir profedigaeth | Cyngor ar agweddau ymarferol presenoldeb mewn llysoedd; cyngor ar hawliau cyfreithiol cynrychiolaeth deuluol;<br>cyngor ar brosesau crwneriaid / cwestau; cyngor ar brosesau iawndal a hawliadau – Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA)<br>Eiriolaeth | Cyngor a chymorth neu gyfeirio at gymorth ailgartrefu. |

[5] Trefnwyd i ddibenion dangosol yn erbyn y categorïau cyffredinol o anghenion dioddefwyr a amlinellwyd yn "Getting it Right for victims and witnesses" a'r NatCen Evidence and Practice Review

5. Nodwyd llawer o gategorïau o angen yn yr ymgynghoriad “Getting it Right for Victims and Witnesses”:


- Addysg, sgiliau a chyflogaeth
- Cyllid a budd-daliadau
- Ymagweddau ac agweddau
- Iechyd meddyliol a chorfforol
- Cyffuriau ac alcohol
- Rhyngweithio cymdeithasol
- Teulu, cyfeillion a phlant
- Lloches a llety

6. Unwaith eto, i ddibenion enghraifft ddangosol, dyma rai o’r profiadau o wasanaethau sy’n cynorthwyo rhai mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiad, yn erbyn y chwe chategori cyffredinol hyn:

| Addysg, sgiliau a chyflogaeth | Cyllid a budd-daliadau | Ymagweddau ac agweddau | Iechyd meddyliol a chorfforol | Cyffuriau ac alcohol | Rhyngweithio cymdeithasol | Teulu, cyfeillion a phlant | Lloches a llety |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Help i leihau / ymdopi ag effaith y meysydd bywyd hyn a achosir gan brosesau’r System Cyfiawnder Troseddol sy’n aml yn faith | Gwybodaeth am hawliau / hawliadau posibl ar draws meysydd troseddol a sifil | Cymorth rhag effeithiau unigrwydd, help i ailadeiladu rhyngweithio cymdeithasol | Cwnsela profedigaeth / trawma – ar unwaith ac yn ddiweddarach | Angen posibl i ddelio â dibyniaeth a all ddilyn | Cymorth rhag effeithiau unigrwydd, help i ailadeiladu rhyngweithio cymdeithasol | Help i ailadeiladu rhyngweithio cymdeithasol; Help i addasu i newid mewn bywyd (e.e. neiniau a theidiau’n gofalu am blant) | Cyngor a chymorth neu gyfeirio at gymorth ailgartrefu |


**ATODIAD C i'r Ddogfen Ddisgrifiadol**

## Map proses cyfredol – lladdiad dramor



**ATODIAD D i’r Ddogfen Ddisgrifiadol**

## Map proses cyfredol – lladdiad yng Nghymru a Lloegr




**Nodyn:** Yn ogystal â’u rôl o gysylltu â’r teulu mewn profedigaeth, mae Swyddogion Cyswllt Teulu (FLO) hefyd yn ymchwilwyr sy’n chwarae rôl bwysig drwy gynorthwyo’r Uwch Swyddog Ymchwilio i ddatrys y drosedd

**Nodyn:** Mae’r map hwn yn dangos y broses lefel uchel yn unig. Efallai y bydd gan heddluoedd gwahanol drefniadau ychydig yn wahanol i hysbysu’r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau, felly gall arferion lleol amrywio rhywfaint.

### Y trefniadau cyllido cyfredol:

(1) Ar hyn o bryd mae’r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ariannu’r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau cenedlaethol a grwpiau cymorth gan gymheiriaid ar wahân. *(Sylwer: Bydd cyllido ar wahân yn dod i ben ar 1 Hydref 2014 a bydd y Derbynnydd yn cael un grant integredig hyd at £2.85m y flwyddyn).*

(2) Ar hyn o bryd mae Cymorth i Ddioddefwyr yn cael cyllid grant fel rhan o’i gymorth grant, gyda gofyniad i ddarparu Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau. O fewn y grant hwn, rhoddir £600k y

flwyddyn fel y gall y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau atgyfeirio dioddefwyr ymlaen at ddarparwyr therapi arbenigol y gwelir sydd ei angen yn dilyn asesiad o angen.

**ATODIAD E i'r Ddogfen Ddisgrifiadol**

**Geirfa**

*Unigolyn mewn profedigaeth* – gweler paragraff 1.9 y Ddogfen Ddisgrifiadol

*Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr* – Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr ymddygiad troseddol gan sefydliadau cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr; a'r safonau sylfaenol ar gyfer y gwasanaethau hynny (Y Weinyddiaeth Cyfiawnder: 2013)

*Gwasanaeth a Gomisiynwyd* – sefydliad sydd wedi cael ei gomisiynu'n swyddogol gan y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau i ddarparu cymorth arbenigol i deuluoedd mewn profedigaeth

*Y System Cyfiawnder Troseddol* – yr holl asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r gyfraith, trefn, troseddu a chosbi yng Nghymru a Lloegr a sut maent yn gweithio â'i gilydd

*Deddf Cydraddoldeb 2010* - mae'r Ddeddf hon yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle a chymdeithas yn gyffredinol drwy gyfraith. Mae wedi disodli deddfau gwrth wahaniaethu blaenorol gydag un Ddeddf, sy'n gwneud y gyfraith yn haws i'w deall ac mae'n cryfhau amddiffyniad mewn rhai sefyllfaoedd. Mae'n amlinellu'r gwahanol ffyrdd sy'n anghyfreithlon i drin pobl.

*Aelod Wladwriaeth yr UE* – unrhyw wladwriaeth sy'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd (gweler http://europa.eu/index_en.htm )

*Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO)* – Adran y Llywodraeth sy'n gyfrifol am hyrwyddo buddiannau Prydain dramor, ac yn cynorthwyo ein dinasyddion a'n busnesau ledled y byd

*Lladdiad* – gweler paragraff 1.9 y Ddogfen Ddisgrifiadol

*Y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau* – gwasanaeth cenedlaethol sy'n weithredol yng Nghymru a Lloegr sy'n cael ei redeg gan Gymorth i Ddioddefwyr, ac sy'n darparu cymorth i deuluoedd mewn profedigaeth o ganlyniad i lofruddiaethau a dynladdiad.

*Grŵp Cymorth gan Gymheiriaid* – yn fras, unrhyw grŵp sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr gan gymheiriaid sydd wedi profi profedigaeth o ganlyniad i laddiad

*Swyddog Cyswllt Teulu (yr Heddlu) (FLO)* – prif rôl y FLO yw fel ymchwilwyr sy'n cynorthwyo'r uwch swyddog ymchwilio, ac mae'n cynnwys rheoli cysylltiad o ddydd i ddydd y teulu mewn profedigaeth â'r ymchwiliad (gweler Canllaw Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn www.acpo.police.uk/documents/criminaljustice/2009/200909CJUFLO01.pdf )

*Cyfarwyddeb y Dioddefwyr* – Hwn yw CYFARWYDDEB 2012/29/EU SENEDD A CHYNGOR EWROP 25 Hydref 2012 sy'n pennu safonau sylfaenol ar gyfer hawliau, cymorth ac amddiffyn dioddefwyr troseddau, ac sy'n disodli Penderfyniad Fframwaith y Cyngor 2001/220/JH. Mae Erthyglau 8 a 9 y Gyfarwyddeb yn disgrifio hawliau a hawliadau pobl mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiad i gael cymorth.

*Cymorth i Ddioddefwyr* – elusen genedlaethol sy'n cynnig cymorth cyfrinachol am ddim i ddioddefwyr troseddau, tystion, eu teuluoedd a'u ffrindiau.

*Uned Gofal Tystion* – rhan o Wasanaeth Erlyn y Goron, mae'r Unedau Gofal Tystion yn rheoli gofal dioddefwyr a thystion o'r adeg pan gyhuddir y diffynnydd neu'r diffynyddion ymlaen i ddiwedd yr achos, gan gynnig un pwynt cyswllt ar gyfer dioddefwyr a thystion lle cânt wybodaeth am gynnydd eu hachos ac i leihau'r straen a all godi yn sgil eu presenoldeb yn y llys.

**ATODIAD F i'r Ddogfen Ddisgrifiadol**

# CYNORTHWYO UNIGOLION MEWN PROFEDIGAETH O GANLYNIAD I LADDIAD YNG NGHYMRU A LLOEGR

## Digwyddiad Cwrdd â'r Farchnad – 14 Chwefror 2014
## Sesiwn Holi ac Ateb

**Pa Lefel Effaith (IL) (neu ddisgrifiad o lefel diogelwch priodol) sydd ei angen ac a ddefnyddir ar gyfer cadw a throsglwyddo data fel rhan o'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau?**

Lefel Effaith 3

**Pa ganran o aelodau teuluoedd a fanteisiodd ar y cymorth a gynigiwyd yn ystod y 3 neu 4 blynedd diwethaf?**

82%

**Pwy sy'n gwneud y cynnig cyntaf i unigolion i gael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth am gymorth?**

Swyddogion Cyswllt Teulu'r Heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Mewn achosion mewn gwledydd tramor bydd y cynnig yn cael ei wneud gan y swyddog desg perthnasol yn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

**A yw teulu'n cyfrif fel un atgyfeiriad ynteu atgyfeiriad lluosog?**

Lluosog, gan ei fod yn wasanaeth i unigolion ac nid i deuluoedd.

**Faint o unigolion mae'r gwasanaeth wedi cwrdd â hwy a faint o unigolion sy'n cael eu cynorthwyo ar hyn o bryd?**

Ers sefydlu'r gwasanaeth yn 2010:

Roedd cyfanswm nifer yr achosion o laddiadau yng Nghymru a Lloegr a hysbyswyd i'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau gan yr heddlu yn ystod blynyddoedd 2010-2011, 2011-2012 a 2012-2013 fel a ganlyn:

| Blwyddyn Ariannol | Hysbysiadau |
|---|---|
| 2010-2011 | 621 |
| 2011-2012 | 570 |
| 2012-2013 | 539 |
| **Cyfanswm** | **1760** |

Roedd cyfanswm nifer yr achosion, yn dilyn yr hysbysiadau uchod, lle rhoddodd unigolion mewn profedigaeth yn yr achosion hyn eu cydsyniad i'r heddlu i'w hatgyfeirio at y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yn ystod blynyddoedd 2010-2011, 2011-2012 a 2012-2013 fel a ganlyn:

| Blwyddyn Ariannol | Atgyfeiriadau (Nifer yr hysbysiadau lle rhoddwyd cydsyniad i'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau gysylltu) |
|---|---|
| 2010-2011 | 531 |
| 2011-2012 | 467 |
| 2012-2013 | 441 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm** | **1439** |

Roedd cyfanswm nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yn ystod blynyddoedd 2010-2011, 2011-2012 a 2012-2013 fel a ganlyn:

| Blwyddyn Ariannol | Nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd |
|---|---|
| 2010-2011 | 1443 |
| 2011-2012 | 1292 |
| 2012-2013 | 1080 |
| **Cyfanswm** | **3815** |

Nid yw'r ffigurau uchod yn cynnwys atgyfeiriadau gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Yn ystod y cyfnod 2010-2013 roedd 100 o laddiadau mewn gwledydd tramor a arweiniodd at atgyfeiriadau gan yr FCO i'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau a chafodd 143 o unigolion gymorth yn ystod y cyfnod hwnnw.

Roedd cyfanswm nifer yr unigolion a gynorthwywyd gan y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau rhwng 2010 a 31 Rhagfyr 2013 yn 4500.

Mae cyfanswm nifer yr unigolion sy'n cael cymorth ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau (Chwefror 2014) yn 2588.

**O'r aelodau teulu hynny a gafodd gymorth y llynedd, pa ganran o'r achosion a oedd yn ymwneud â lladdiad plentyn?**

Roedd tua 50 o hysbysiadau o lofruddiaeth plentyn a datblygodd tua 90% ohonynt i fod yn achos.

**Sut mae cyllid yn cael ei ddyrannu i unedau gwasanaeth?**

Nid yw dyfarniad grant yn nodi gofynion cost uned. Y gofyniad yw defnyddio'r arian mor effeithlon â phosibl i ddiwallu cymaint o'r anghenion â phosibl.

**Faint o ddarparwyr fydd ar y rhestr fer ar gyfer cyflwyniad?**

Bydd pob darparwr nad ydynt wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr yn unol â'r Cyfarwyddiadau ar gyfer Bidio yn cael eu gwahodd i gyflwyniadau.

**A fydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn darparu gwybodaeth TUPE?**

Gan fod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan sefydliad allanol ar hyn o bryd bydd yn rhaid i'r darparwr newydd gael eu cyngor eu hunain ynghylch a yw TUPE yn gymwys ai peidio.

**A yw'r FCO yn disgwyl i'r darparwr ddarparu cymorth dramor?**

Mae'r Ddogfen Ddisgrifiadol ar gyfer y gwasanaeth yn egluro'r mathau o gymorth y bydd angen i'r darparwr gwasanaeth ei ddarparu pan fydd lladdiad yn digwydd dramor ond bod yr unigolyn mewn profedigaeth yn ateb y meini prawf cymhwysedd ym mhob ffordd arall i gael cymorth gan y gwasanaeth yng Nghymru a Lloegr.

**Beth fydd cyfrifoldeb y darparwr gwasanaeth cymorth yn dilyn lladdiadau os bydd aelodau'r teulu'n symud dramor?**

Bydd darparwr manyleb y gwasanaeth cymorth yn dilyn lladdiadau yn gorfod cydymffurfio â Chyfarwyddeb Dioddefwyr yr UE, gan roi sylw penodol i Erthygl 8 ar yr hawl i fanteisio ar wasanaethau cymorth i ddioddefwyr a chymorth gan wasanaethau cymorth i ddioddefwyr. Mae'r Gyfarwyddeb yn anwahaniaethol o ran man preswylio dioddefwyr. Os yw aelodau'r teulu'n Brydeinwyr ac yn symud i wlad arall, gall yr FCO ddarparu cymorth consylaidd arferol er na fyddai aelodau'r teulu mwyach yn gymwys i gael cymorth gan y darparwr. Pe bai dioddefwr trosedd mewn un arall o aelod wladwriaethau'r UE wedyn yn symud i'r DU, yna byddai rhwymedigaeth ar y darparwr i ddarparu gwasanaethau i'r dioddefwr pe bai'r dioddefwr yn dymuno cael cymorth.

Dywed Croniclad 51 y Gyfarwyddeb os yw'r dioddefwr wedi gadael tiriogaeth yr Aelod Wladwriaeth lle cyflawnwyd y drosedd, nid oes rhwymedigaeth wedyn ar yr Aelod Wladwriaeth i ddarparu cymorth heblaw am yr hyn sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw achos troseddol sy'n cael ei gynnal ganddo o ran yr ymchwiliad troseddol dan sylw. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r darparwr gwasanaeth feithrin y cysylltiadau angenrheidiol â gwasanaethau i ddioddefwyr ac awdurdodau heddlu ledled yr UE i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig a safonol. Bydd hyn yn helpu i weithredu Erthygl 17 y Gyfarwyddeb er mwyn lleihau'r anawsterau a wynebir pan fydd y dioddefwr yn preswylio mewn Aelod Wladwriaeth wahanol i'r un lle cyflawnwyd y drosedd.

**Beth yw rôl cymorth gan gymheiriaid i ddarparu gwasanaethau? Sut fydd y defnydd o gymorth gan gymheiriaid yn cael ei annog?**

Mae cymorth gan gymheiriaid yn cael ei nodi yn y ddogfen ddisgrifiadol fel un o ofynion y gwasanaeth a ddarperir fel rhan o'r grant a ddyfernir. Fel yn achos pob math o gymorth, bydd hwn yn cael ei ddarparu'n seiliedig ar anghenion yr unigolyn.

Y tu hwnt i anghenion yr unigolyn, nid yw'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaeth penodol ond bydd yn monitro'r mathau o angen a ddaw i'r amlwg, a'r gweithgareddau cymorth a ddarperir mewn perthynas â'r anghenion a ganfuwyd.

**Sut roddir sylw i anghenion sy'n newid?**

Cydnabyddir y gall anghenion unigolion sydd wedi'u heffeithio gan droseddau newid a datblygu dros amser. Bydd y gofyniad i ddarparu cymorth yn seiliedig ar angen yn barhaus am yr holl gyfnod y dyfarnwyd y grant ar ei gyfer.

**Beth fydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ei wneud i gynorthwyo sefydliadau i ffurfio cynghreiriau?**

Nid yw'r Weinyddiaeth yn bwriadu chwarae rhan flaenllaw yn hyn o beth heblaw am drefnu a chynnal y digwyddiad Cwrdd â'r Farchnad ar 14 Chwefror 2014 a dosbarthu manylion partïon a fydd yn rhan o'r digwyddiad hwnnw ar Contracts Finder.

**A yw'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau newydd hwn yn cynorthwyo achosion ar ôl 2010 yn unig?**

Ydy.

**A oes dyddiad cau ar gyfer darparu cymorth i ddioddefwyr?**

Mae pob achos ar ôl 2010 yn dod o fewn cwmpas y cynllun.

**A oes trothwy ar gyfer lefel y gwasanaethau y mae'n ofynnol i'r darparwr eu cyflenwi o fewn y cyllid grant?**

Nac oes. Mae gofyniad ar y darparwr i weithio mewn ffordd effeithlon i gyflenwi gwasanaeth sy'n diwallu'r anghenion a ganfuwyd yn achos pob dioddefwyr. Os bydd cynnydd sylweddol iawn yn nifer yr unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth gall hyn arwain at drafodaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth rhwng y Weinyddiaeth a'r darparwr ar sut i fwrw ymlaen.

**Sut all unigolion gael cymorth os nad ydynt yn derbyn cymorth ar y dechrau?**

Gall unigolion atgyfeirio eu hunain hyd yn oed os ydynt wedi gwrthod cymorth yn y lle cyntaf.

**Pa ddata fydd yn cael ei drosglwyddo i'r darparwr newydd o'r darparwr presennol?**

Bydd y data y mae gwrthrych y data yn rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth i'w drosglwyddo yn cael ei ddarparu.

**Beth yw'r broses os nad oes llythyr atgyfeirio gan yr heddlu h.y. pan fydd y lladdiad yn digwydd dramor?**

Mae gofyniad ar weithwyr achos yr FCO i hysbysu'r darparwr o lofruddiaeth neu ddynladdiad sy'n digwydd dramor o fewn 24 awr ar ôl iddynt gael yr wybodaeth honno.

**Beth fydd yn digwydd os oes marwolaeth amheus mewn gwlad dramor?**

Pan fydd awdurdodau lleol yn dechrau ymchwilio i farwolaeth amheus fel llofruddiaeth neu ddynladdiad posibl, bydd staff yn y wlad honno'n hysbysu'r FCO yn Llundain, a fydd wedyn yn hysbysu'r darparwr (neu bydd staff yn y wlad dan sylw'n hysbysu'r darparwr yn uniongyrchol os yw'n defnyddio'r dull Gwaith Achos yn y wlad).

Mae Cod y Dioddefwyr yn ymdrin â'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau yng Nghymru a Lloegr. Mae Cyfarwyddeb Dioddefwyr yr UE yn amlinellu'r hawliau, y cymorth a'r amddiffyniad sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau ledled yr UE. Mae'r diffiniadau o ddioddefwr ac aelodau teulu dioddefwr i ddibenion y Gyfarwyddeb wedi'u hamlinellu yn Erthygl 2. Mae dioddefwyr ymddygiad troseddol ac aelodau teulu unigolyn y mae ei farwolaeth wedi'i hachosi gan ymddygiad troseddol yn gymwys i gael yr hawliau a amlinellwyd yn y Gyfarwyddeb.

**Beth yw'r cyfraddau bodlonrwydd presennol ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Llanddiadau?**

Nid yw'r Weinyddiaeth yn casglu cyfraddau bodlonrwydd yn achos y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau. Bydd yn casglu gwybodaeth ar sut y mae'r gwasanaeth yn effeithio ar les ac mae'n bwriadu edrych ar yr effaith ar ystod o anghenion.

**Sut gaiff perfformiad ei fesur?**

Bydd y Weinyddiaeth yn mesur y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer unigolion sydd wedi cael cymorth. Bydd hyn yn cynnwys mesur anghenion a ganfuwyd ac allbynnau a dosbarthu adnoddau yn effeithiol i ddiwallu anghenion.

Mae'r Ddogfen Ddisgrifiadol yn amlinellu dull y Weinyddiaeth o fesur perfformiad yn fwy manwl, ac mae'r Weinyddiaeth yn bwriadu datblygu'r rhain ymhellach gyda'r darparwr.

**Pa ran o'r gyllideb sy'n gysylltiedig â'r FCO?**

Bydd yr FCO yn cyfrannu hyd at £100k y flwyddyn o'r cyfanswm o hyd at £2.85m y flwyddyn.

**Sut fydd y Weinyddiaeth yn gwybod a yw'r arian yn cael ei ddosbarthu'n gywir rhwng anghenion?**

Bydd y Weinyddiaeth yn monitro'r mathau o anghenion a ganfuwyd, a'r gweithgareddau cymorth a ddarperir ar gyfer yr anghenion a ganfuwyd, yn ogystal â defnydd effeithlon o'r arian sy'n diwallu'r anghenion hynny orau.